**Rhif: WG53989**

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Barn ar y Mecanweithiau Priodol ar gyfer Gwneud Newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru

Chwefror 2026

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

© Hawlfraint y Goron

**ISBN Digidol 978-1-83715-994-9**

## 1. Trosolwg

### Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y mecanweithiau priodol ar gyfer gwneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru ac ymateb Llywodraeth Cymru.

### Y camau nesaf

Mae'r ymgynghoriad wedi helpu i lywio adolygiad Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg o weithrediad ac effaith Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022 fel sy'n ofynnol o dan adran 6 o'r Ddeddf honno. Er i Lywodraeth bresennol Cymru ymdrin â'r ymatebion i'r ymgynghoriad a chasgliadau'r adolygiad, mater i Lywodraeth Cymru a etholir ym mis Mai 2026 fydd gwneud y penderfyniadau ynghylch a yw dull newydd o wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru yn briodol a pha ddull sy'n briodol.

### Camau i'w Cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

### Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill.

### Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:

Yr Is-adran Strategaeth Trethi a Chysylltiadau Rhynglywodraethol,
Trysorlys Cymru,
Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays,
Caerdydd,
CF10 3NQ

E-bost: ChangestoWelshTaxActs@gov.wales / NewidiadauiDdeddfauTrethCymru@llyw.cymru

### Copïau ychwanegol

Ar ffurf electronig yn unig y caiff y crynodeb hwn o ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennaeth ymgynghori eu cyhoeddi, a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r ddogfennaeth ymgynghori: Barn ar y Mecanweithiau Priodol ar gyfer Gwneud Newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru

## Cynnwys


Diben yr ymgynghoriad .................... 4

Y broses ymgynghori .................... 4

Crynodeb o’r ymatebion i’r ymgynghoriad .................... 5

Cwestiwn 1 .................... 6

Cwestiwn 2 .................... 8

Cwestiwn 3 .................... 10

Cwestiwn 4 .................... 11

Cwestiwn 5 .................... 12

Cwestiwn 6 .................... 15

Cwestiwn 7 .................... 17

Cwestiwn 8 .................... 18

Cwestiwn yn ymwneud â’r Gymraeg .................... 19

Atodiad A – Rhestr o ymatebwyr .................... 20

## 2. Diben yr ymgynghoriad

2.1 Gofynnodd yr ymgynghoriad am farn ar y mecanweithiau priodol ar gyfer gwneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru.

2.2 Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn chwe chwestiwn a chroesawodd bob sylw arall er mwyn helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu'r mecanweithiau priodol ar gyfer gwneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru. Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn ceisio barn ynghylch sut y byddai'r gwaith hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar y Gymraeg neu a fyddai'n cael effaith gadarnhaol neu negyddol arni.

2.3 Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael yma: Barn ar y Mecanweithiau Priodol ar gyfer Gwneud Newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru

## 3. Y broses ymgynghori

3.1 Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 8 Medi ac 28 Tachwedd 2025. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad yn Gymraeg a Saesneg ar dudalen we ymgynghoriad Llywodraeth Cymru.

3.2 Gallai'r ymatebwyr gyflwyno eu safbwyntiau a'u sylwadau yn Gymraeg neu'n Saesneg, drwy'r post (copi caled), drwy e-bost neu gan ddefnyddio ffurflen ymateb ar-lein.

3.3 Mae Llywodraeth Cymru wedi dewis ymgynghori ag aelodau o'r cyhoedd ynghylch eu barn ar y mecanweithiau priodol ar gyfer gwneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn helpu Gweinidogion Cymru i gydymffurfio â'u rhwymedigaeth statudol wrth adolygu gweithrediad ac effaith Deddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022 er mwyn rhoi asesiad o fecanweithiau deddfwriaethol amgen ar gyfer gwneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru.

3.4 Mae egwyddorion treth Llywodraeth Cymru yn amlinellu'r dull o ddatblygu trethi datganoledig a'u rhoi ar waith, gan nodi y dylai trethi Cymreig godi refeniw i ariannu gwasanaethau cyhoeddus mor deg â phosibl; cyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru; bod yn glir, yn sefydlog ac yn syml; cael eu datblygu drwy gydweithio a chynnwys pobl; a chyfrannu'n uniongyrchol at nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o greu Cymru sy'n fwy cyfartal. Dylai'r mecanwaith ar gyfer gwneud y newidiadau hynny gefnogi'r egwyddorion hyn lle y bo'n briodol.

## 4. Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

4.1 Cafwyd 29 o ymatebion o sylwedd i'r ymgynghoriad. Nid ymatebodd pob un o'r ymgyngoreion i bob cwestiwn. Cafwyd wyth ymateb drwy e-bost a chafwyd 21 drwy'r ffurflen ar-lein. Cafodd pob un o'r ymatebion eu cyflwyno yn Saesneg yn unig. Lle na nododd ymatebwyr a oeddent am i'w hymatebion aros yn ddienw ai peidio, mae unrhyw wybodaeth a allai ddangos pwy ydynt wedi'i dileu o'r crynodeb hwn.

**Ymatebion yn ôl y math o ymatebydd**

| Categori'r ymatebydd | Nifer yr ymatebwyr |
|---|---|
| Unigolion a oedd yn ymateb yn breifat | 21 |
| Cyrff proffesiynol a/neu grwpiau â buddiant | 4 |
| Academyddion mewn Sefydliadau Addysg Uwch | 4 |

Ceir rhestr lawn o'r ymatebwyr yn **Atodiad A.**

4.2 Nid yw'r ymatebion wedi cael eu nodi ar ffurf canrannau a oedd yn cytuno neu'n anghytuno, ac ati, â chwestiynau'r ymgynghoriad. Y rheswm dros hyn yw bod y cwestiynau, mewn llawer o achosion, yn ceisio esboniadau disgrifiadol a safbwyntiau â llawer o ymatebion gwahanol (a hyd yn oed lle roedd ymatebion tebyg roedd amrywiadau cynnil sy'n golygu nad yw'n addas darparu dehongliad canrannol o farn gyffredin). At hynny, ni fyddai nifer yr ymatebion yn cynhyrchu unrhyw ddata ystyrlon.

4.3 Nid ymdriniodd y rhan fwyaf o'r ymatebion gan unigolion â diben yr ymgynghoriad. Yn lle hynny, gwnaethant fynegi anfodlonrwydd ar ddatganoli yn gyffredinol yn ogystal â datganoli trethi yn benodol, penderfyniadau cyllido Llywodraeth Cymru, beirniadaeth o Weinidogion unigol yn Llywodraeth Cymru a dewisiadau o ran dyrannu adnoddau ar gyfer sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal neu ei hyrwyddo. Er bod mynegi'r fath anfodlonrwydd a safbwyntiau yn ddilys, nid ydynt yn helpu i lywio'r materion penodol roedd yr ymgynghoriad yn ceisio ymdrin â nhw.

4.4 Yn y cyflwyniad i'w hymateb ar y cyd, nododd y Sefydliad Siartredig Trethiant a'r Grŵp Diwygio Trethiant Incwm Isel (y cyfeirir ato o hyd ymlaen fel CIOT) y dylai'r proses ar gyfer gwneud newidiadau i drethi datganoledig Cymru wneud y canlynol: darparu ar gyfer ymgynghori digonol a chraffu digonol gan y Senedd, bod yn ymatebol er mwyn diogelu refeniw Llywodraeth Cymru o'r trethi datganoledig (gan gynnwys pan fydd newidiadau i drethi rhagflaenol Llywodraeth y DU yn effeithio ar refeniw), rhoi sicrwydd i unigolion a busnesau, sicrhau bod mesurau diogelwch yn cael eu darparu ar gyfer

trethdalwyr a rhoi digon o amser rhwng pasio/cyhoeddi deddfwriaeth er mwyn darparu ar gyfer ymgyfarwyddo ac unrhyw newidiadau angenrheidiol i systemau. Nododd CIOT hefyd fod "*…y cwestiynau a godwyd…yn cynnwys materion cyfansoddiadol nad ydynt yn rhan o'i faes arbenigol, ar y cyfan.*"

4.5 Argymhellodd PropertyMark, sef corff proffesiynol i asiantiaid eiddo a arweinir gan aelodau, y dylid sefydlu fforwm er mwyn gwella prosesau ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol a fyddai hefyd yn gallu rhoi adborth ar bolisi trethiant.

4,6 Nododd yr Athro Professor de Cogan faterion cyfansoddiadol y DU mewn perthynas ag Erthygl 4 o Ddeddf Iawnderau 1688 i'r graddau roedd yn ymwneud â chodi treth gan y gweinyddiaethau datganoledig a thrwy is-ddeddfwriaeth. Er iddo ddod i'r casgliad bod y naill a'r llall yn bosibl ac yn effeithiol, nododd nad yw hynny'n golygu bod gosod newidiadau i drethi o dan is-ddeddfwriaeth yn syniad da.

4.7 Ar y llaw arall, yn eu hymatebion, argymhellodd Anurag Deb a Dr Kilford y dylid parhau i ddefnyddio is-ddeddfwriaeth ac roeddent o'r farn y dylid cynnwys yr holl bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth mewn un ddeddf yn hytrach na rhwng y tair Deddf Trethi Cymru bresennol.

4.7 Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i'r holl ymatebwyr am yr amser a'r ymdrech a roesant i ymgysylltu â'r ymgynghoriad hwn.

## 5. Cwestiwn 1

**A ydych yn ymwybodol o enghreifftiau o ddeddfwrfeydd eraill a allai ddarparu enghreifftiau defnyddiol i weinyddiaeth ddatganoledig (gan ddarparu ar gyfer gwahaniaethau cyfansoddiadol a chyfreithiol)? Esboniwch pam y gallai'r trefniadau hyn fod yn addas i Gymru.**

5.1 Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebion nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw weinyddiaethau datganoledig eraill y tu allan i'r DU â phwerau codi trethi y gellid ystyried eu bod yn fodel posibl i Lywodraeth Cymru a Senedd Cymru ei ystyried fel model posibl.

5.2 Rhoddodd dau academydd yn Seland Newydd yn hael o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad. Ni wnaeth yr Athro Shelley Griffiths unrhyw sylwadau ar y cwestiynau a ofynnwyd yn benodol yn yr ymgynghoriad ond nododd sut mae'r ddeddfwriaeth sy'n sail i'r trethi a godir gan lywodraeth Seland Newydd yn cael ei newid, a oedd yn ddefnyddiol iawn.

5.3 Cyfeiriodd yr Athro Adrian Sawyer (sydd hefyd wedi'i leoli yn Seland Newydd) a'r Dr Sara Closs-Davies at yr Alban, ond gwnaethant hefyd gyfeirio at waith ymchwil sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd i bwerau datganoledig sy'n cael eu rhoi i bobl frodorol mewn gwledydd megis Canada. Bydd y gwaith hwnnw yn cynnwys ystyried enghreifftiau o bwerau trethu datganoledig.

5.4 Nododd PropertyMark egwyddorion a newidiadau y mae'n credu y dylai gefnogi trafodiadau eiddo preswyl ym mhob band treth. Roedd y rhain yn cynnwys rhyddhad i brynwyr tro cyntaf, mesurau i brynwyr tro olaf a mesurau i ysgogi'r farchnad gan gynnwys ar gyfer prynwyr tai a'r rhai sy'n buddsoddi yn y sector rhentu preifat. Cyfeiriodd PropertyMark at enghreifftiau o daleithiau yng Nghanada ac Awstralia fel enghreifftiau o weinyddiaethau sy'n rhoi enghreifftiau o'r dulliau gweithredu hyn ar waith. Anogodd Lywodraeth Cymru i fabwysiadu gwersi sy'n hyrwyddo hygyrchedd, symlrwydd a rhagweladwyedd, gan osgoi gordaliadau gormodol neu reolau cymhleth sy'n arafu trafodiadau.

5.5 Roedd un unigolyn o'r farn nad oedd unrhyw enghreifftiau addas i'w hystyried gan nad oedd datganoli wedi bod yn llwyddiannus yn unman. Mewn perthynas â'r DU, cyfeiriodd at y cyfnod o lywodraeth ddatganoledig anweithredol yng Ngogledd Iwerddon, fformiwla Barnett, rheoli gwael yn y tair gwlad ddatganoledig, bylchau mewn seilwaith yng Ngogledd Iwerddon a bregusrwydd cyfansoddiadol yng Nghymru fel enghreifftiau o fethiant. Roedd unigolyn arall o'r farn bod y broses ddeddfwriaethol bresennol yn y gwledydd datganoledig (yn ogystal â Senedd y DU) wedi arwain at orddibyniaeth ar y defnydd o is-ddeddfwriaeth a datblygiad biliau 'ysgerbydol' sy'n rhoi pwerau yn hytrach na deddfu drwy ddeddfwriaeth sylfaenol. Roedd yn pryderu bod hyn yn peri risg o leihau rôl y Senedd o ran craffu ar bolisi trethi a'i lywio a allai, yn ei dro, leihau ymddiriedaeth y cyhoedd mewn llywodraethiant trethi yng Nghymru. Dywedodd unigolyn arall fod enghreifftiau (amhenodol) i'w cael a allai gynnig gwersi defnyddiol i Gymru yn benodol ym meysydd ymreolaeth gyllidol, datganoli pwerau yn effeithiol, arloesi mewn prosesau llunio polisi a darparu gwasanaethau.

## 6. Cwestiwn 2

**Yn eich barn chi, a ddylai'r pwerau is-ddeddfwriaeth presennol barhau i fod ar gael i Weinidogion Cymru yn y Deddfau Trethi Cymru perthnasol? Esboniwch eich ymateb.**

6.1 Nododd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW) mai ei egwyddorion o bolisi trethi da yw y dylid deddfu deddfwriaeth trethi mewn deddfwriaeth sylfaenol. Fodd bynnag, ychwanegodd ei fod yn deall yr anawsterau penodol y mae Llywodraeth Cymru yn eu hwynebu wrth ymateb i newidiadau a wneir gan Lywodraeth y DU, yn arbennig pan nad yw'r newidiadau hynny yn cyd-fynd â'r broses gyllidebol yng Nghymru.

6.2 Nododd CIOT hefyd mai ei fan cychwyn yw y dylid nodi cyfraith treth mewn deddfwriaeth sylfaenol, yn arbennig wrth osod atebolrwyddau neu rwymedigaethau ar drethdalwyr, gyda phwerau is-ddeddfwriaeth ond yn cael eu defnyddio ar gyfer materion gweinyddol. Ychwanegodd ei fod yn cydnabod bod y pŵer rheoleiddio yn Neddf 2022 yn adlewyrchu cyfaddawd rhwng anghenion croes cyflymder, craffu ac ymatebolrwydd.

6.3 Nododd CIOT hefyd nad oedd y pŵer yn Neddf 2022 wedi'i ddefnyddio a bod hynny'n codi'r cwestiwn ai ychydig iawn o newidiadau sydd eu hangen neu a yw'r broses hon yn addas at y diben. Yn arbennig, nid oedd o'r farn bod y pŵer i wneud rheoliadau yn briodol ar gyfer mynd i'r afael ag osgoi ac efadu trethi, sicrhau cydymffurfedd â rhwymedigaethau rhyngwladol nac ychwaith er mwyn ymateb i benderfyniadau tribiwnlysoedd neu lysoedd. Serch hynny, roedd CIOT o'r farn bod sail dros gynnal pŵer rheoleiddio cyfyngedig dim ond er mwyn ymateb i benderfyniadau Llywodraeth y DU a allai effeithio ar yr addasiad i'r grant bloc.

6.4 Roedd PropertyMark o blaid cadw'r pwerau sydd gan Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth. Cydnabu fod y pwerau hyn yn ei gwneud yn bosibl i'r trethi allu cael eu haddasu'n gyflym, gan gynnwys rhoi'r hyblygrwydd i ymateb i newidiadau yn y farchnad dai a chynnal sefydlogrwydd y farchnad.

6.5 Roedd Anurag Deb a Dr Kilford o'r farn ei bod yn bwysig y gallai Llywodraeth Cymru ymateb i ddatblygiadau allweddol yn gyflym ac yn effeithiol. Felly, roeddent o'r farn nad yw'r cydbwysedd rhwng yr angen i ymateb yn gyflym a'r egwyddorion cyfansoddiadol perthnasol sy'n codi yn golygu nad oes modd meddu ar y pwerau is-ddeddfwriaethol o'r math a nodir yn Neddf 2022 na'u harfer. Yn eu barn nhw, roedd angen i'r dibenion y gallai'r pŵer yn Neddf 2022 gael ei arfer ar eu cyfer fod yn gul dros ben. Roeddent o'r farn y gallai fod yn briodol ehangu'r dibenion y gallai'r pŵer yn Neddf 2022 gael ei arfer ar eu

cyfer, yn dibynnu ar oruchwyliaeth effeithiol gan y Senedd. Fodd bynnag, daethant i'r casgliad, yn eu barn nhw, nad oedd angen y cymal machlud presennol yn Neddf 2022. Roedd yr Athro Sawyer a Dr Closs-Davies o blaid cadw'r pwerau ar yr amod mai'r Senedd fydd yn atebol ac yn gyfrifol am oruchwyliaeth.

6.6 Roedd sawl unigolyn o'r farn y dylid cyfyngu ar y defnydd o bwerau is-ddeddfwriaethol, gydag un yn dadlau y dylid eu cyfyngu i faterion gweinyddol a dau yn dadlau y dylid cadw'r holl bwerau ond y dylai hynny fod yn amodol ar ddiwygiadau wedi'u targedu neu y dylid eu hailystyried ac, o bosibl, eu diddymu. Roedd y rhesymau dros y safbwyntiau a gyflwynwyd yn ymwneud yn bennaf â'r awydd i gynnal neu wella tryloywder, atebolrwydd democrataidd, ymddiriedaeth y cyhoedd a gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd oherwydd gall is-ddeddfwriaeth ymddangos yn aneglur neu fel petai wedi cael ei chyflwyno ar frys, gan leihau ymddiriedaeth y cyhoedd yn nhegwch a sefydlogrwydd system dreth Cymru.

## 7. Cwestiwn 3

**Yn eich barn chi, a ddylid dileu'r holl bwerau is-ddeddfwriaeth sydd ar gael i Weinidogion Cymru o'r Deddfau Trethi Cymru perthnasol? Esboniwch eich ymateb.**

7.1 Nid atebodd CIOT y cwestiwn hwn yn uniongyrchol. Cyfeiriodd ICAEW at ei ymateb i'r cwestiwn blaenorol.

7.2 Roedd PropertyMark yn anghytuno y dylid dileu'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth, gan gyfeirio at bryderon y byddai dileu'r pwerau hynny yn lleihau'n sylweddol allu Gweinidogion Cymru i ymateb yn gyflym i newidiadau yn y farchnad dai neu fynd i'r afael â phroblemau technegol yn ymwneud â gweinyddu trethi, o ystyried bod hyn yn hyrwyddo atebion 'wedi'u gwneud' yng Nghymru.

7.3 Roedd Anurag Deb a Dr Kilford yn cytuno y dylid dileu'r holl bwerau i wneud rheoliadau o dan is-ddeddfwriaeth yn Neddfau Trethi Cymru. Fodd bynnag, y rheswm dros hyn oedd eu bod o'r farn y dylid cynnwys pob un o'r pwerau y gall Gweinidogion Cymru eu harfer mewn perthynas â Deddfau Trethi Cymru yn Neddf 2022 neu, sut bynnag, mewn un statud. Cafodd y farn honno ei datgan eto yn eu hymateb i Gwestiwn 4.

7.4 Roedd yr Athro Sawyer a Dr Closs-Davies o'r farn y dylai'r pwerau gael eu dileu mewn egwyddor fel bod yn rhaid i unrhyw newidiadau gael eu gwneud drwy ddeddfwriaeth sylfaenol, o ystyried bod risg y gallai is-ddeddfwriaeth danseilio rheolaeth y gyfraith a lleihau cwmpas cyrff a etholwyd yn ddemocrataidd. Fodd bynnag, maent hefyd yn cydnabod bod angen i Lywodraeth Cymru ymateb yn gyflym i faterion penodol (er enghraifft, mewn ymateb i benderfyniadau a wneir gan Lywodraeth y DU a Senedd y DU), ac na fyddai deddfwriaeth sylfaenol yn cyd-fynd ag amseriad ac anghenion Llywodraeth Cymru na Senedd Cymru. Daethant i'r casgliad y byddai angen pwerau is-ddeddfwriaethol cyfyngedig, er enghraifft, er mwyn gwneud newidiadau ynglŷn â chyllid a gwariant.

7.5 Cymysg fu'r safbwyntiau a oedd yn cael eu harddel gan unigolion. Roedd un o'r farn y dylid dileu'r pwerau gan fod y defnydd ohonynt wedi methu â denu buddsoddiad i Gymru. Roedd eraill o'r farn y byddai'n anghymesur neu'n wrthgynhyrchiol dileu'r holl bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth ond y dylid nodi ffiniau clir rhwng materion gweinyddol a phenderfyniadau polisi mawr, gyda'r olaf yn cael eu gwneud drwy ddeddfwriaeth sylfaenol yn unig.

## 8. Cwestiwn 4

**Yn eich barn chi, a ddylid dileu rhai pwerau is-ddeddfwriaeth sydd ar gael i Weinidogion Cymru o'r Deddfau Trethi Cymru perthnasol? Os felly, nodwch pa rai ac esboniwch pam.**

8.1 Cyfeiriodd ICAEW yn benodol at y pŵer a roddir i Weinidogion Cymru yn Neddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022, gan nodi nad oedd wedi cael ei ddefnyddio eto. Nododd hefyd ei bod yn rhy gynnar, o bosibl, i dybio na fydd angen y pwerau hyn. Daeth i'r casgliad y gallai'r angen o hyd am bwerau i wneud rheoliadau leihau petai dull bil cyllid blynyddol yn cael ei roi ar waith.

8.2 Pwysleisiodd rhai unigolion eu safbwynt eto y dylid cyfyngu ar y defnydd o rai pwerau is-ddeddfwriaeth fel eu bod yn ymwneud â materion gweinyddol yn unig. Rhestrodd un unigolyn nifer o feysydd penodol lle y dylid dileu pwerau penodol, yn ei farn ef. Roedd y rhain yn cynnwys y pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiwygio cyfraddau treth, trothwyon neu ryddhadau am mai elfennau craidd polisi treth ydynt. At hynny, roedd yn pryderu y gallai'r pŵer i ymateb i newidiadau Llywodraeth y DU i'r trethi rhagflaenol arwain at gysoni'n awtomataidd â newidiadau i drethi'r DU, a fyddai'n tanseilio ymreolaeth Cymru ac na fyddai'n adlewyrchu, o bosibl, flaenoriaethau nac amodau economaidd Cymru.

## 9. Cwestiwn 5

**Yn eich barn chi, pa broses y dylid ei defnyddio yn y dyfodol i wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru –**

**a. bil cyllid blynyddol i Gymru,**

**b. bil trethi blynyddol (neu lai mynych) i Gymru,**

**c. fersiwn newydd o Ddeddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022,**

**d. unwaith y bydd Deddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022 wedi cyrraedd ei phwynt machlud, dibynnu ar y pwerau gwneud rheoliadau a'r ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol yn ôl yr angen, neu**

**e. dull gwahanol (nodwch pa ddull). Esboniwch eich rhesymau.**

9.1 Nododd ICAEW yn glir y byddai'n well ganddo weld newidiadau i ddeddfwriaeth trethi yn cael eu gwneud drwy Fil Cyllid er y derbynnir na fyddai nifer y mesurau yn cyfiawnhau bil blynyddol, o bosibl, ac y gallai fod angen cyfuno bil o'r fath â rhyw bŵer ar gyfer casglu trethi dros dro.

9.2 Roedd CIOT o'r farn nad yw nifer y newidiadau deddfwriaethol yn ddigon ar hyn o bryd i gyfiawnhau proses bil cyllid blynyddol yng Nghymru. Roedd CIOT hefyd o'r farn y bydd yr achos dros fil cyllid blynyddol i Gymru neu fil trethi blynyddol yn gryfach os bydd trethi datganoledig yn darparu cyfran gynyddol o refeniw drwy drethi datganoledig presennol neu unrhyw drethi eraill sy'n cael eu datganoli.

9.3 Daeth CIOT i'r casgliad mai'r opsiwn a oedd yn cael ei ffafrio ganddo ar y pryd oedd mabwysiadu dull bil trethi blynyddol neu lai aml, gan nodi y byddai amlder ac amseriad yn dibynnu ar faint o newidiadau y byddai eu hangen a'i fod yn derbyn ei bod yn annhebygol y byddai angen bil bob blwyddyn ar hyn o bryd.

9.4 Cyfeiriodd CIOT hefyd at y gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru ac ACC drwy'r ymgynghoriad ar y cyd ar gynigion deddfwriaethol sy'n ymwneud â Deddfau Trethi Cymru[1]. Yn dibynnu ar benderfyniadau Llywodraeth Cymru, bydd y gwaith hwn yn arwain at yr hyn y cyfeirir ato fel 'bil cynhaliaeth trethiant'. Gofynnodd CIOT a oes modd rhannu gwaith a wneir ar ddeddfwriaeth trethi rhwng newidiadau i bolisi a chynnal Deddfau Trethi Cymru, gan nodi nad oes fawr o werth yn treulio amser yn ceisio nodi a yw newidiadau i drethi yn newidiadau cynhaliaeth technegol neu'n newidiadau i bolisi. Gofynnodd hefyd a fwriedir i'r bil cynhaliaeth trethiant gyflawni'r un swyddogaeth â'r bil trethi blynyddol (neu lai aml) a amlinellwyd. Mae

[1] Cynigion deddfwriaethol sy'n ymwneud â Phapur Gwyn Deddfau Trethi Cymru

Llywodraeth Cymru yn bwriadu i'r bil cynhaliaeth trethiant (os caiff ei gyflwyno yn ystod tymor y Senedd nesaf) roi profiad a gwersi ar hynt bil sy'n gwneud newidiadau penodol i Ddeddfau Trethi Cymru gan ddefnyddio deddfwriaeth sylfaenol, yn enwedig o ran sut y caiff gwelliannau i'r bil hwnnw eu cynnig a chwmpas y gwelliannau hynny. At hynny, gallai'r profiad helpu i hysbysu'r Senedd a Llywodraeth Cymru am ba rai o brosesau'r Senedd y gallai fod angen eu haddasu ar gyfer biliau treth.

9.5 Yn ei ymateb i'r cwestiwn hwn, argymhellodd PropertyMark y dylid mabwysiadu dull bil cyllid blynyddol, gan nodi ei fod yn ddull cyfarwydd a rhagweladwy. Argymhellodd PropertyMark hefyd y dylid ymgynghori â fforwm cyn unrhyw newid i bolisi gan gynnwys addasiadau i ardrethi, rhyddhadau neu ordaliadau ac y gellid ei ddefnyddio i ddarparu tystiolaeth o effeithiau arfaethedig polisi a'u monitro.

9.6 Nododd yr Athro de Cogan fod treth yn agored i ddibyniaethau llwybr trwm (hynny yw, mae digwyddiadau a phenderfyniadau yn y gorffennol yn cyfyngu ar ddigwyddiadau a phenderfyniadau diweddarach), ac y gallai fod angen addasu'r strwythurau sy'n cael eu datblygu ar gyfer system dreth fach at un fawr rywbryd. At hynny, nododd, er bod y pŵer is-ddeddfwriaethol i wneud rheoliadau yn effeithiol, ei bod yn bosibl nad yw'n briodol. Yn benodol, roedd yn pryderu ynghylch y posibilrwydd y gallai pwerau is-ddeddfwriaeth gael eu harfer i ddeddfu deddfwriaeth gwrthweithio osgoi trethi.

9.10 Roedd Anurag Deb a Dr Kilford o'r farn y dylid defnyddio fersiwn ddiwygiedig o Ddeddf 2022 neu ddeddf newydd yn lle Deddf 2022 yn y dyfodol i wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru ac y dylid dileu'r pwerau machlud a geir ynddo. Roeddent hefyd o'r farn bod proses bil cyllid neu drethi flynyddol yn debygol o fod yn ddull aneffeithlon y mae'n debygol y bydd angen gwneud deddfwriaeth ôl-weithredol neu ragarweiniol ar ei gyfer. Roeddent hefyd o'r farn y byddai bil cydgrynhoi trethi llai aml yn fanteisiol, gan awgrymu y gallai hyn ddigwydd unwaith yn ystod pob tymor Senedd, o bosibl.

9.11 Nododd yr Athro Sawyer a Dr Closs-Davies y byddai'r dewis yn dibynnu ar ba mor agos y byddai'r Senedd a Llywodraeth Cymru am ddilyn gweithdrefnau San Steffan. Gwnaethant nodi bod Cymru yn cael cyfle i fod yn arloesol a chreu a bod yn awdurdod arweiniol mewn polisi trethi a deddfu. Daethant i'r casgliad nad oes digon o ddeddfwriaeth, ar hyn o bryd, i gyfiawnhau bil cyllid blynyddol ond y dylid parhau i adolygu hyn wrth i bwerau trethu datganoledig Cymru gynyddu.

9.12 Nododd un unigolyn nad oes gan Gymru ail siambr i graffu ar ddeddfwriaeth yn effeithiol gan ddod i'r casgliad y dylid dychwelyd yr holl bwerau trethu i Senedd y DU. Roedd un arall o'r farn mai'r dull gweithredu gorau fyddai

cyflwyno proses reolaidd a strwythuredig ar gyfer Bil Trethi Cymru, nid un flynyddol o reidrwydd ond un fynych. Roedd o'r farn y byddai hynny'n sicrhau y gallai'r system dreth barhau i fod yn ystwyth ac yn deg, y byddai'n dryloyw i randdeiliaid ac y byddai ganddynt fewnbwn ac y byddai'r Senedd yn cadw rheolaeth ystyrlon dros y ddeddfwriaeth gan daro'r cydbwysedd cywir rhwng atebolrwydd democrataidd ac effeithlonrwydd gweinyddol.

9.13 Nododd unigolyn arall fod problemau gyda phob un o'r opsiynau amgen a awgrymwyd, gan nodi mai'r dull gweithredu a ffefrir ganddo yw datblygu fframwaith deddfwriaethol ymgynghorol, gan gynnwys:

- Pwyllgor Trethi Cymru sefydlog yn y Senedd er mwyn goruchwylio'r holl newidiadau arfaethedig,
- Ymgynghori gorfodol â'r cyhoedd ar gyfer unrhyw welliannau o sylwedd,
- Prosesau deddfwriaethol â haenedau, lle mae diweddariadau technegol yn defnyddio gweithdrefnau symlach ond mae angen trafod newidiadau i bolisi yn llawn,
- Datganiad blynyddol ar bolisi treth gan Weinidogion Cymru yn amlinellu bwriadau ac yna filiau wedi'u targedu yn ôl yr angen.

## 10. Cwestiwn 6

**Yn dibynnu ar eich ateb i gwestiwn 5, yn eich barn chi, a oes angen proses i roi newidiadau ar waith cyn i'r bil cyllid/trethi ddod i rym? Os felly, yn eich barn chi, a fyddai dull casglu trethi dros dro, dull is-ddeddfwriaeth (gyda chymal machlud – 'dull seiliedig ar adran 109 o Ddeddf Cyllid 2003'), neu ddull arall yn fwy priodol i Gymru? Esboniwch eich rhesymau.**

10.1 Nid atebodd CIOT y cwestiwn hwn a mynegodd ICAEW farn y byddai'n well ganddo ddull penderfyniadau o dan y Ddeddf Casglu Trethi Dros Dro i ddwyn newidiadau i weithrediad y trethi i rym cyn i unrhyw ddeddfwriaeth sylfaenol gael Cydsyniad Brenhinol.

10.2 Roedd PropertyMark o blaid sefydlu mecanwaith a fyddai'n ei gwneud yn bosibl i newidiadau gael eu gwneud i'r rheolau treth cyn i'r bil cyllid blynyddol ddod i rym. Awgrymodd y dylid cadw'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth gyda chymal machlud. Ym marn PropertyMark, byddai hynny'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud addasiadau amserol gan sicrhau bod newidiadau yn cael eu hadolygu a'u cadarnhau yn y prif fil cyllid.

10.3 Cydnabu'r Athro de Cogan berthnasedd yr enghraifft a ddarperir gan adran 109 o Ddeddf Cyllid 2003 ond gan nodi bod risg y byddai'r adran a'r dull gweithredu posibl yn cuddio dwy broblem ehangach, sef, yn gyntaf, nad yw pŵer ehangach i wneud is-ddeddfwriaeth yn gyffredin yng nghyfraith trethi arall y DU ac, yn ail, er mai treth trafodiadau tir yw'r dreth ddatganoledig sy'n darparu'r gyfran fwyaf sylweddol o'r refeniw a gynhyrchir ar hyn o bryd, ei bod yn bosibl nad felly y bydd yn y dyfodol pan fyddai ei phwysigrwydd yn lleihau o bosibl pe bai rhagor o drethi datganoledig yn cael eu creu (p'un a fyddent yn gysylltiedig â threthi rhagflaenol ai peidio).

10.4 Cynigiodd yr Athro de Cogan safbwyntiau amgen hefyd a oedd yn edrych y tu hwnt i ddull Seneddol presennol y DU. Yn benodol, amlinellodd hanes datblygiad y Ddeddf Casglu Trethi Dros Dro gan nodi ei bod yn dibynnu'n fawr ar ddamwain hanesyddol ac iddi ddeillio o'r penderfyniad i wrthod Cyllideb y Bobl yn Nhŷ'r Arglwyddi yn 1909. Daeth i'r casgliad bod y Ddeddf Casglu Trethi Dros Dro yn ateb 'plastr glynu' i'r argyfwng ond nad yw'n broses y byddai unrhyw un yn ei llunio'n fwriadol ac y byddai'n synnu pe na bai gweddill y byd a'r 110 o flynyddoedd ers hynny yn cynnig model gwell. O ystyried y casgliad hwn, anogodd Lywodraeth Cymru i edrych ymhellach na'r DU fel ffordd o ysgogi syniadaeth wirioneddol newydd. Roedd yn deall bod ymdrechion wedi cael eu gwneud i wneud hyn fel rhan o'r ymgynghoriad presennol a bod hynny i'w groesawu'n fawr.

10.5 Roedd yr Athro Sawyer a Dr Closs-Davies o'r farn y dylid bodloni dwy egwyddor gyffredinol, sef bod tryloywder, gan gynnwys ymgynghori â'r cyhoedd, ac y dylid osgoi ansicrwydd a achosir gan broses casglu trethi dros dro a/neu anwadalrwydd o ran ymddygiad trethdalwyr ac yn y farchnad a achosir gan gymal machlud. Roeddent hefyd o'r farn y dylid lleihau'r defnydd o wneir o is-ddeddfwriaeth.

10.6 Roedd un unigolyn o'r farn y dylai fod proses i roi newidiadau ar waith ar unwaith cyn i ddeddfwriaeth sylfaenol gael ei phasio, gan ddod i'r casgliad y byddai dull is-ddeddfwriaeth â chymal machlud pendant yn darparu dull wedi'i deilwra o ymdrin â system dreth Cymru sy'n datblygu. Roedd unigolyn arall yn anghytuno â'r safbwynt hwn gan nodi nad oedd angen i newidiadau ddod i rym cyn i fil cael Cydsyniad Brenhinol, yn ei farn ef. Yn ei farn ef, un dull gweithredu posibl fyddai cyflwyno proses gydgynghorol, glir ar gyfer gwneud newidiadau i drethi, hyd yn oed pe bai hynny'n golygu aros i fil ddod i rym. Ychwanegodd, mewn achosion yr oedd gwir angen ymdrin â nhw ar frys, y gellid defnyddio gweithdrefn bil garlam ond gydag ymgyngoriadau wrth wraidd y broses o hyd, ac na ddylai unrhyw newidiadau ddod i rym cyn i'r bil gael Cydsyniad Brenhinol.

## 11. Cwestiwn 7

**Yn eich barn chi, a yw'n briodol i Weinidogion Cymru gyfyngu ar gwmpas unrhyw Filiau cyllid neu drethi a osodir gerbron y Senedd neu a ddylai unrhyw newidiadau y tu hwnt i welliannau i'r rhai a gynigir gan Weinidogion Cymru fod yn bosibl? Os ydych yn credu y dylai fod cyfyngiadau yng nghwmpas Bil o'r fath, beth yw'r mecanwaith priodol ar gyfer gwneud hynny, yn eich barn chi? Esboniwch eich rhesymau.**

11.1 Nododd ICAEW, er mwyn atal gwelliannau y tu allan i'r cwmpas yn ystod prosesau craffu, y byddai'n synhwyrol cyfyngu ar gwmpas unrhyw fil cyllid neu fil trethi (yn debyg i broses penderfyniadau ffyrdd a moddau y DU. Ni wnaeth CIOT sylwadau ar y cwestiwn hwn yn benodol.

11.2 Nododd PropertyMark, er ei fod o'r farn y dylai Gweinidogion Cymru barhau i fod yn atebol am bolisi treth yn gyffredinol, ei bod yn bwysig y gall pob Aelod o'r Senedd gynnig gwelliannau er mwyn sicrhau craffu democrataidd a gwahanol safbwyntiau wrth wneud deddfwriaeth trethi.

11.3 Ym marn Anurag Deb a Dr Kilford, ni ddylid cynnwys cyfyngiad ar gwmpas gwelliannau i unrhyw fil cyllid a threthi mewn statud am ei fod yn fater o gonfensiwn gwleidyddol mai dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y bydd y ddeddfwrfa yn gwrthod/addasu cynigion refeniw'r llywodraeth. Gwnaethant nodi hefyd, er y byddai'r ffaith nad yw bil cyllid wedi cael ei gymeradwyo gan y Senedd yn cael ei hystyried yn arwydd bod y Senedd wedi colli hyder yn llywodraeth y DU, nad oeddent o'r farn y byddai'r un peth yn wir, o reidrwydd, yn achos Llywodraeth Cymru.

11.4 Roedd yr Athro Sawyer a Dr Closs-Davies yn pryderu y gallai cyfyngu ar gwmpas gwelliannau i unrhyw fil cyllid neu drethi godi materion cyfansoddiadol pwysig o ran pwy sy'n deddfu.

11.5 Nid oedd y rhan fwyaf o'r unigolion a ymatebodd i'r cwestiwn o'r farn y dylid cyfyngu ar y gwelliannau y gall Aelodau o'r Senedd eu gwneud i unrhyw filiau cyllid neu drethi yn y dyfodol. Roedd hyn i'w briodoli i raddau helaeth i'r awydd i sicrhau bod craffu democrataidd yn parhau. Ychwanegodd un y dylid caniatáu gwelliannau perthnasol a chymesur gan Aelodau. Roedd un arall o'r farn, nes bod ail siambr yng Nghymru, y dylid cyfyngu ar gwmpas gwelliannau y gellid eu cynnig.

## 12. Cwestiwn 8

**Yn eich barn chi, a ddylid estyn y cymal machlud ar gyfer y pŵer i wneud rheoliadau a roddir i Weinidogion Cymru gan y Ddeddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022 hyd at 30 Ebrill 2031, neu ddyddiad arall, er mwyn rhoi digon o amser i'r llywodraeth nesaf ddatblygu'r dull gweithredu a ddewisir ganddi?**

12.1 Roedd cefnogaeth eang ymhlith y cyrff proffesiynol o blaid estyn y cymal machlud hyd at 30 Ebrill 2031. Er bod ICAEW a CIOT o blaid dull deddfwriaeth sylfaenol o wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru, roeddent hefyd yn gweld gwerth yr estyniad, gydag ICAEW yn nodi y gallai fod cyfiawnhad dros estyniad er mwyn rhoi'r amser sydd ei angen i ymgynghori a datblygu dull gweithredu amgen. Nododd CIOT y byddai estyn y cymal machlud ar gyfer y pŵer rheoleiddio a ddarperir gan Ddeddf 2022 hyd at 30 Ebrill 2031 yn cynnig mecanwaith a fyddai'n ei gwneud yn bosibl i'r broses gael ei hadolygu'n barhaus.

12.2 Roedd PropertyMark yn cytuno'n gryf y dylid estyn y cyfnod hyd at 31 Ebrill 2031, gan nodi y byddai hynny'n rhoi digon o amser i'r llywodraeth nesaf adolygu, ymgynghori a phenderfynu ar ddull gweithredu hirdymor. Pwysleisiodd PropertyMark unwaith eto fod hyblygrwydd a pharhad mewn perthynas â'r dreth trafodiadau tir yn bwysig iawn i gynnal hyder yn y farchnad dai.

12.3 Roedd yr Athro Sawyer a Dr Closs-Davies yn pryderu y byddai'r risg a fyddai'n gysylltiedig ag estyn y pŵer yn arwain at oedi cyn cymryd camau i gyflwyno newidiadau i'r mecanweithiau a ddefnyddir i wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru.

12.4 Nid oedd y rhan fwyaf o unigolion o blaid estyn y cymal machlud ar gyfer y pŵer a roddodd y Senedd i Weinidogion Cymru yn Neddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022. Nododd un unigolyn y dylai pwerau dros dro fod dros dro ac y byddai eu hestyn yn tanseilio'r cyfyngiad gwreiddiol ar amser a ddarparwyd. Roedd unigolyn arall o'r farn, os bydd y pwerau wedi'u defnyddio'n briodol a bod achos clir y bydd eu hangen dros dro ar lywodraethau yn y dyfodol, yna y gallai fod cyfiawnhad dros estyn y cymal machlud hyd at 30 Ebrill 2031. Roedd yn cydnabod y byddai hyn yn rhoi amser i ddatblygu'r dull gweithredu newydd neu, yn y pen draw, adael i'r pŵer ddod i ben, ond y dylai estyn y cymal machlud fod yn amodol ar ymrwymo o'r newydd i sicrhau tryloywder. Roedd trydydd unigolyn o'r farn y dylid cyfyngu unrhyw estyniad i dymor y Senedd nesaf (30 Ebrill 2030 – pedair blynedd).

## 13. Cwestiwn yn ymwneud â'r Gymraeg

13.1 Ni chynigiodd y sefydliadau na'r academyddion unrhyw farn ar y Gymraeg.

13.2 Fel y nodwyd yn y cyflwyniad (paragraff 4.3), mynegodd llawer o'r ymatebion gan unigolion safbwyntiau cryf na ddylid gwario arian ar sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal nac ychwaith ei hyrwyddo. Roedd sawl unigolyn o blaid trin y Gymraeg yn gyfartal ond roedd un unigolyn o'r farn y dylai Cymraeg Gogledd Cymru gael ei defnyddio gan Lywodraeth Cymru ac, er mwyn cefnogi'r Ganolfan Gymraeg (y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol o bosibl), y dylid ei lleoli ym Mangor.

13.3 Nododd dau unigolyn fod cyfle i gefnogi'r Gymraeg, drwy ddatblygu ac arfer cyfrifoldebau'r Senedd a Llywodraeth Cymru am dreth. Yn y ddau achos, roeddent o'r farn bod angen sicrhau bod yr holl ddeunydd esboniadol deddfwriaethol yn gwbl ddwyieithog ac yn hawdd ei ddeall a'i fod yn cyd-fynd â'r egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg a bod risg o driniaeth anghyfartal gan nodi, pe bai newidiadau yn cael eu gwneud yn gyflym, y gallai fod llai o gyfle i sicrhau bod fersiynau Cymraeg o ddeddfwriaeth, canllawiau a gohebiaeth yn cael eu llunio i'r un safon ac yn unol â'r un amserlen â Saesneg. Mae deddfwriaeth yn Gymraeg a Saesneg yn cael ei thrin yn gyfartal, a gwneir cryn ymdrech drwy gadarnhau cyfatebolrwydd, er mwyn sicrhau bod y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn union yr un peth. Mae hyn yn arbennig o bwysig er mwyn sicrhau na all trethdalwyr ddewis defnyddio'r fersiwn yn yr iaith sy'n fwy ffafriol i'w hamgylchiadau. Yn yr un modd, mae Llywodraeth Cymru yn gwbl ymrwymedig i lunio ei gohebiaeth a'i dogfennau cyhoeddedig sy'n ymwneud â threth (megis memoranda esboniadol ac ati) yn y ddwy iaith. Yn olaf, mae Awdurdod Cyllid Cymru, sy'n gyfrifol am gasglu a rheoli'r trethi datganoledig a'r ardoll ymwelwyr, hefyd yn sefydliad dwyieithog.

## Atodiad A – Rhestr o ymatebwyr

1. Dienw
2. Ymatebydd (ni roddwyd enw)
3. Dienw
4. Dienw
5. Dienw
6. Dienw
7. Dienw
8. Dienw
9. Dienw
10. Dienw
11. Dienw
12. Dienw
13. Dienw
14. Dienw
15. Dienw
16. Dienw
17. Dienw
18. Dienw
19. Dienw
20. Ymatebydd (ni roddwyd enw)
21. Ymatebydd (ni roddwyd enw)
22. Dienw
23. Propertymark
24. Ymateb ar y cyd gan y Sefydliad Siartredig Trethiant (CIOT) a'r Grŵp Diwygio Trethiant Incwm Isel (LITRG)
25. ICAEW
26. Shelley Griffiths (Prifysgol Otago Otākou Whakaihu Waka)
27. Dominic de Cogan (Prifysgol Caergrawnt)
28. Anurag Deb (Prifysgol y Frenhines, Belfast) a Dr Nicholas Kilford (Prifysgol Durham)
29. Sara Closs-Davies ac Adrian Sawyer (Prifysgol Manceinion a Phrifysgol Caergaint, Seland Newydd)